# MEWNFUDO, INTEGREIDDIO A CHANLYNIADAU YN Y FARCHNAD LAFUR

Papur Briffio Allanol, Chwefror 2025

## Y Cefndir

Mae llifoedd ymfudo a chyfran y boblogaeth a aned dramor wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y degawdau diwethaf ar draws sawl gwlad, gan gynnwys y DU. Yn 2021, roedd 10 miliwn o bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr wedi'u geni y tu allan i'r DU, cynnydd o 2.5 miliwn o'r cyfanswm o 7.5 miliwn yn 2011.[1] Un cwestiwn allweddol sy'n codi o'r amrywiaeth gynyddol hon yw sut mae mewnfudwyr yn perfformio yn y farchnad lafur ac yn integreiddio i mewn iddi.

Rhoddodd prosiect ymchwil gan ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd, a gynhaliwyd fel rhan o gymrodoriaeth ymchwil a ariannwyd gan ADR UK, ddarlun cynhwysfawr o sut mae mewnfudwyr yn perfformio yn y farchnad lafur o gymharu â chyflogeion a aned yn y DU. Defnyddiodd set ddata newydd a oedd yn cysylltu data cyflogres cyflogwyr manwl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) â gwybodaeth ddemograffig y Cyfrifiad, gan gwmpasu tua 0.5% o gyflogeion yng Nghymru a Lloegr yn 2011.[2]

Archwiliodd yr astudiaeth wahaniaethau mewn gwahanol ganlyniadau marchnad lafur, gan gynnwys cyflog, oriau, lefelau sgiliau galwedigaethol, a mathau o gontractau cyflogaeth rhwng cyflogeion a aned yn y DU a chyflogeion sy'n fewnfudwyr.[3] Gwnaeth hefyd ddadansoddi sbardunau'r gwahaniaethau hyn, gan ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â'r unigolyn, y cyflogwr ac integreiddio, a sut mae'r gwahaniaethau hyn yn esblygu dros amser.[4]

## Cyd-destun Polisi

Mae'r hyn sy'n digwydd i fewnfudwyr ar ôl cyrraedd y DU yn ganolog i bolisïau integreiddio. Mae profiadau mewnfudwyr yn y farchnad lafur yn agwedd hanfodol ar y broses integreiddio. Dylai hyn fod yn ystyriaeth allweddol i lunwyr polisi, oherwydd gall gwahaniaethau mewn enillion a chyfleoedd cyflogaeth amharu ar berfformiad economaidd a chyfyngu ar y defnydd o sgiliau, gan golli cyfleoedd i lenwi bylchau sgiliau. Mae deall yr anghydraddoldebau hyn a'u sbardunau sylfaenol yn hanfodol i ddatblygu strategaethau i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â than-ddefnydd o sgiliau.

Mae gwybodaeth o ymchwil ar ddeiliaid fisa Gwladolion Prydeinig (Tramor) (BN(O)) Hong Kong yn tynnu sylw at sut mae'r heriau hyn yn dod i'r golwg yn ymarferol.[5] Canfu arolwg diweddar gan British Future fod 18% yn disgrifio eu hunain fel di-waith a dywedodd bron i hanner (47%) eu bod nhw'n gweithio o dan eu lefel o sgiliau a chymwysterau. Fel llawer o ymfudwyr, mae BN(O)au yn ystyried cyflogaeth yn rhan o'r broses o integreiddio i fywyd yn y DU, ac eto maen nhw'n dod ar draws rhwystrau sylweddol fel anawsterau'n cael cydnabyddiaeth i'w cymwysterau a'u profiad proffesiynol, diffyg hyder mewn Saesneg llafar, a'r ffaith nad ydyn nhw'n gyfarwydd â marchnad swyddi'r DU. Mae'r heriau hyn yn cael eu cymhlethu ymhellach gan gamsyniadau cyflogwyr am hawliau fisa a diffyg profiad sy'n benodol i'r DU, sy'n creu rhwystrau ychwanegol.

---

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) Mudo Rhyngwladol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (cyrchwyd 8 Tachwedd 2023).
[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - SYG (2023) Rhyddhawyd 03 Gorffennaf 2023, Catalog Metadata SRS y SYG, set ddata, Yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion sy'n gysylltiedig â Chyfrifiad 2011 – Cymru a Lloegr, DOI: https://doi.org/10.57906/80f7-te97.
[3] Kaya, E. (2024) Labour Market Performance of Immigrants: New Evidence from Linked Administrative Data. Papur Trafod y Sefydliad Llafur Byd-eang, Rhif 1418, Essen: Y Sefydliad Llafur Byd-eang.
[4] Kaya, E. (2024). Labour Market Differences between Immigrant and UK-born Employees: What is the Role of Employers? ADR UK Data Insight.
[5] Rolfe, H. a Lau, D. (2024) Working it out: Hong Kongers, employment and the cost of living, Welcoming Committee for Hong Kongers and British Future.

Ysgrifennwyd: Ionawr 2024
Cyswllt: PublicAffairs@caerdydd.ac.uk

## Yr hyn y mae'r ymchwil yn ei ddangos

Daeth yr astudiaeth gan ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd o hyd i wahaniaethau sylweddol yng nghanlyniadau'r farchnad lafur rhwng mewnfudwyr a chyflogeion a aned yn y DU, yn enwedig yn ôl blynyddoedd preswylio. Mae mewnfudwyr hirdymor (y rheini sydd wedi preswylio am o leiaf 10 mlynedd yn y DU o Gyfrifiad 2011 ymlaen) yn tueddu i weld canlyniadau tebyg iawn i gyflogeion a aned yn y DU. Mewn cyferbyniad, mae mewnfudwyr mwy diweddar yn ennill llai, yn gweithio oriau hirach, ac yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi sgiliau isel neu swyddi dros dro. Digwydd hyn er gwaethaf y ffaith eu bod nhw'n fwy tebygol o feddu ar radd a bod crynodiad uwch ohonynt mewn rhanbarthau â chyflogau uchel fel Llundain. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arbennig o fawr yn achos menywod, mewnfudwyr o grwpiau ethnig leiafrifol, sydd yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol yn y farchnad lafur, yn ogystal â mewnfudwyr o ranbarthau sy'n llai tebyg i'r DU yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

Canfu'r astudiaeth hefyd rôl ddeuol y mae cyflogwyr yn ei chwarae yn y canlyniadau hyn. Mae gweithle cyflogeion yn bwysig, gan fod mewnfudwyr a chyflogeion a aned yn y DU yn tueddu i weithio mewn mathau gwahanol o gwmnïau, gyda mewnfudwyr yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn cwmnïau â chyflogau is. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol yn parhau o fewn yr un cyflogwr, hyd yn oed ymhlith cydweithwyr â nodweddion tebyg, megis addysg a hyd cyflogaeth.

Canfuwyd bod integreiddio mudwyr, yn ôl ffactorau fel hyfedredd Saesneg, dal pasbort y DU neu uniaethu'n wladolyn Prydeinig, yn helpu i gau'r bylchau rhwng mudwyr a'u cydweithwyr. Fodd bynnag, mae anghydraddoldeb yn parhau hyd yn oed yn achos y rheini â hyfedredd Saesneg, pasbort y DU neu hunaniaeth Brydeinig. Er bod rhai gwahaniaethau'n lleihau dros amser, araf yw'r cynnydd o hyd.

## Argymhellion i Lunwyr Polisi

Mae tan-ddefnydd parhaus o sgiliau yn cynrychioli gwastraff cyfalaf dynol. Mae polisïau sy'n dylanwadu ar gyfleoedd cyflogaeth mewnfudwyr yn hanfodol i wella eu canlyniadau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y farchnad lafur. Gall ymdrechion i gynnig cymorth i fewnfudwyr diweddar, ochr yn ochr â mesurau i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, wella canlyniadau'r farchnad lafur yn sylweddol wrth hyrwyddo integreiddio. Byddai mesurau o'r fath nid yn unig yn gwella canlyniadau unigol ond hefyd o bosib yn helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau ym marchnad lafur y DU.

Gall mentrau wedi'u targedu, fel rhaglenni mentora, cyngor cyflogaeth wedi'i deilwra, a gwybodaeth hygyrch am y farchnad lafur, helpu mewnfudwyr i lywio marchnad lafur y DU yn fwy effeithiol. Mae'r ymdrechion hyn yn arbennig o bwysig i grwpiau fel menywod, sy'n aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol, a mewnfudwyr o ranbarthau sy'n llai tebyg i'r DU yn ddiwylliannol. Ar hyn o bryd, mae ymfudwyr yn aml yn dibynnu'n fawr ar rwydweithiau anffurfiol, sy'n effeithiol o ran eu helpu i ddod o hyd i waith, ond mewn swyddi mynediad hawdd, sgiliau isel.[6]

Mae cyflogwyr yn chwarae rhan ganolog wrth lunio canlyniadau'r farchnad lafur i fewnfudwyr, trwy ble maen nhw'n gweithio - cyflogwyr cyflog isel yn aml - ac anghyfartalwch o fewn cyflogwyr unigol. Mae hyn yn tynnu sylw at botensial targedu arferion a mentrau llogi sy'n hyrwyddo symudedd yn y farchnad lafur, yn ogystal â pholisïau cyflog a sgiliau, i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Yn y cyd-destun hwn, gall polisïau sy'n gwella sgiliau iaith, sy'n ei gwneud hi'n haws cael cydnabyddiaeth i gymwysterau addysg tramor, ac sy'n gwerthfawrogi profiad gwaith blaenorol o'r wlad tarddiad, chwarae rhan sylweddol wrth gyflymu integreiddio.

---

[6] Hudson, N. a Runge, J. (2020) Recruitment of workers into low-paid occupations and industries: an evidence review, Manceinion: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Cydnabyddiaethau:** Cefnogir y gwaith hwn gan ADR UK (Administrative Data Research UK), buddsoddiad gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) (rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU). [Rhif grant: ES/Y00010001/1]. Gwnaed y gwaith hwn gan ddefnyddio data ystadegol sy'n eiddo i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a pherchnogion eraill a chafwyd mynediad iddo drwy Wasanaeth Ymchwil Diogel SYG. Nid yw defnyddio data ystadegol SYG yn y gwaith hwn yn awgrymu cymeradwyaeth SYG na pherchnogion data eraill mewn perthynas â'r dehongliad neu'r dadansoddiad o'r data ystadegol. Mae'r gwaith yn defnyddio setiau data ymchwil nad ydynt o bosibl yn atgynhyrchu cyfansymiau Ystadegau Gwladol yn union.

## Cysylltu â ni

Materion Cyhoeddus a Chenhadaeth Ddinesig, Prifysol Caerdydd
publicaffairs@cardiff.ac.uk